Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:

helpu pawb i ddeall a chefnogi eich plentyn

Canllaw i rieni a gofalwyr



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES

Hydref 2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Deall ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY): canllaw i rieni a gofalwyr**.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

E-bost:

YGangenAnghenionDysguYchwanegol@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Cynnwys

Am y canllaw yma.....4

Am ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.....6

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y system ADY 8

Cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 10

Sut i gynnwys eich plentyn yn y cyfarfod.....13

Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod 18

Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod.....19

Offer cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ..21

Atebion i rai cwestiynau cyffredin.....25

Dolenni defnyddiol 28

Am y canllaw yma



Yng Nghymru, mae yna system i helpu plant a phobl ifanc sydd angen cymorth ychwanegol i ddysgu.



Mae'r cymorth yma yn cael ei alw yn system anghenion dysgu ychwanegol. Rydyn ni'n ei alw'n system ADY yn fyr.



Canllaw Hawdd ei Ddarllen yw hwn ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y system ADY.

Mae'r canllaw yma yn esbonio:



- Beth mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn feddwl.



- Sut mae'n cael ei ddefnyddio yn y broses ADY.



- Beth ydy adolygiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sut rydych chi'n gallu paratoi ar gyfer cyfarfod.



- Pethau sy'n helpu i ddarganfod beth sy'n bwysig i'ch plentyn.

Am ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn



Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn meddwl canolbwyntio ar beth mae pob plentyn neu berson ifanc ei eisiau a'i angen nawr ac yn y dyfodol.



Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ffordd o weithio gyda phlant a phobl ifanc.



Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein helpu i ddod i adnabod plant a phobl ifanc yn well. A meddwl am beth sy'n bwysig iddyn nhw a sut i'w cefnogi.



Mae hyn yn gwneud yn siŵr bod eich plentyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando a'u gwerthfawrogi.

Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn bethau fel:



- Gweld eich plentyn fel unigolyn.



- Deall eu dewisiadau, eu safbwyntiau, eu diddordebau a'u nodau.



- Gwrando arnyn nhw.



- Edrych ar beth maen nhw ei angen.



- Rhoi eu llais wrth wraidd gwneud penderfyniadau.

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y system ADY



Fe ddylid defnyddio dull person-ganolog pan fydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud am eich plentyn a'r gefnogaeth maen nhw ei angen.



Mae hyn yn cynnwys:

- Edrych i weld a oes gan eich plentyn ADY.
- Cynllunio eu cefnogaeth.
- Adolygu eu cefnogaeth.



Os oes gan eich plentyn ADY, fe fydd yr ysgol, y coleg neu'r cyngor lleol yn gwneud cynllun datblygu unigol. Rydyn ni'n galw hyn yn CDU yn fyr.



Mae'r cynllun yn esbonio anghenion eich plentyn. Mae hefyd yn egluro'r gefnogaeth y byddant yn ei chael.



Rhaid gwneud y cynllun yma gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Fe ddylai pawb sy'n adnabod eich plentyn orau weithio gyda'i gilydd i helpu i ddeall anghenion eich plentyn.



I ddarganfod mwy am y system ADY, mae pecyn cymorth. Rydych chi'n gallu darganfod mwy amdano: www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-pecyn-cymorth-rhieni-gofalwyr. Mae fersiwn Hawdd ei Ddeall ar gael.

Cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn



Pan fydd cytundeb bod gan eich plentyn ADY, efallai byddwch chi'n cael gwahoddiad i ddod i gyfarfod.



Mae hwn yn gyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn y cyfarfod fe fyddwch chi i gyd yn edrych ar beth mae eich plentyn eisiau ac angen. Yna fe fydd cynllun yn cael ei wneud am beth sydd angen digwydd.



Fe fyddwch chi'n cael manylion am pryd fydd y cyfarfod a phwy fydd yno.



Weithiau mae enwau gwahanol yn cael eu rhoi i'r cyfarfodydd yma. Dydy hyn ddim yn bwysig. Fe ddylen nhw i gyd ddefnyddio ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.



Mae'r cyfarfodydd yma sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn digwydd fwy nag unwaith. Gallan nhw ddigwydd pan fydd yr ysgol neu'r coleg yn adolygu:

- A oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).
- Y cynllun datblygu unigol.
- Rhywbeth mawr sydd wedi newid.



Cyn y cyfarfod fe fydd rhywun sy'n adnabod eich plentyn yn casglu gwybodaeth amdanyn nhw. Mae hyn i helpu i gynllunio ar eu cyfer.



Mae'r wybodaeth yma yn aml yn cael ei rhannu gyda chi cyn y cyfarfod. Mae'n gallu eich helpu i wybod beth fydd yn cael ei siarad amdano.



Rydych chi hefyd yn gallu dod â gwybodaeth a syniadau gyda chi. Fe fyddwn ni'n siarad mwy am hyn yn nes ymlaen yn y canllaw.

Cymraeg

Rydych chi'n gallu gofyn i'r cyfarfod a'r wybodaeth fod yn Gymraeg neu mewn ffordd rydych chi'n ei ddeall.

Sut i gynnwys eich plentyn yn y cyfarfod



Weithiau mae'n gallu teimlo'n drwm i blant gymryd rhan yn y cyfarfod. Mae llawer o bobl yn gallu cymryd rhan.



Ond fe fydd helpu'ch plentyn i rannu beth maen nhw'n feddwl a chymryd rhan yn eu helpu i:



- Teimlo eu bod yn cael eu gwrando a'u gwerthfawrogi.



- Gwybod eu hawliau a'r gwasanaethau sydd yn gallu eu helpu.



- Teimlo eu bod yn fwy o dan reolaeth o'u haddysg nawr ac yn y dyfodol.



Fe fydd y person sy'n arwain y cyfarfod yn meddwl am sut i helpu'ch plentyn i gymryd rhan.



Wrth i'ch plentyn fynd yn hŷn, maen nhw fel arfer yn cymryd mwy a mwy o ran. Efallai y byddan nhw'n rhannu beth maen nhw'n feddwl yn fwy.



Os ydy'r plentyn yn 16 oed, mae'n cael ei alw yn berson ifanc. Mae ganddyn nhw'r hawl i wneud penderfyniadau ynghylch eu cymorth ADY.



Mae hyn yn meddwl bod yn rhaid iddyn nhw ddweud ie a chytuno cyn gwneud penderfyniadau.

Rhai pethau rydych chi'n gallu eu gwneud i gefnogi'ch plentyn yn y cyfarfodydd ydy:



- Defnyddio geiriau, lluniau, symbolau ac offer eraill i'w helpu i ddweud beth maen nhw'n feddwl.



- Cynllunio gyda nhw beth maen nhw eisiau ei ddweud neu ei rannu.



- Gofyn am gyfarfod ar wahân gydag 1 person arall. Mae beth maen nhw'n meddwl yn gallu cael ei rannu wedyn mewn gofod tawelach.



- Gofyn am eiriolwr. Eiriolwr ydy rhywun sy'n siarad dros berson arall. Maen nhw'n gallu helpu pobl i rannu beth maen nhw'n feddwl a'u dymuniadau.



- Trefnwch mai dim ond rhan o'r cyfarfod y byddan nhw'n ei fynychu.



- Penderfynu gyda'ch gilydd sut maen nhw'n gallu rhoi gwybod i chi fod angen seibiant arnyn nhw.



- Mynd i weld yr ystafell gyfarfod cyn y cyfarfod.



- Mynd â rhywbeth gyda chi sy'n eu helpu i deimlo'n dawel.



- Gofyn am gyfarfod arall i ddilyn beth rydych chi wedi siarad amdano.

Os nad ydy eich plentyn yn ymuno â'r cyfarfod, mae yna ffyrdd eraill o wneud yn siŵr bod beth maen nhw'n feddwl yn cael eu clywed. Er enghraifft:



- Recordio nhw yn siarad am beth sy'n bwysig iddyn nhw. Hefyd, beth sy'n mynd yn dda neu beth maen nhw eisiau ei newid.



- Rhannu lluniau o beth maen nhw'n hoffi ei wneud.



- Ysgrifennu neu recordio cwestiynau cyn y cyfarfod.



- Defnyddio eiriolwr.

Beth sy'n digwydd yn y cyfarfod

Fe fydd pob cyfarfod yn wahanol. Ond dyma'r pethau sy'n digwydd fel arfer:



- Mae pobl yn y cyfarfod yn dweud pwy ydyn nhw.



- Fe fydd pawb yn rhannu beth maen nhw'n fedddwl am beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio.



- Mae beth sydd angen digwydd nesaf yn cael ei ysgrifennu i lawr.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cyfarfod



Ar ôl y cyfarfod fe fyddwch chi'n parhau i gael cefnogaeth.



Efallai y byddwch chi'n cael nodiadau o beth sydd wedi cael ei gytuno yn y cyfarfod.



Os ydych chi'n teimlo'n ddryslyd neu'n ansicr ar ôl y cyfarfod, rydych chi'n gallu gofyn am help. Rydych chi'n gallu:



- Cysylltu â'r cydlynydd ADY, yr athro, y pennaeth neu staff eraill a siarad gyda nhw.



- Gofyn am adolygiad arall.



- Siarad â thîm ADY eich cyngor lleol am gyngor.



Rydych chi hefyd yn gallu gofyn am eiriolwr i'ch cefnogi. Eiriolwr ydy rhywun sy'n siarad dros berson arall. Maen nhw'n gallu helpu pobl i rannu beth maen nhw'n feddwl a'u dymuniadau.



Mae gan blant yr hawl i eiriolwr os ydyn nhw angen un. Mae hyn yn gallu helpu i wneud yn siŵr bod beth rydych chi'n feddwl yn cael ei glywed yn ogystal â'ch plentyn.



Rydych chi'n gallu darganfod mwy am eiriolaeth yn y Pecyn Cymorth Rhieni a Gofalwyr ADY.

Offer cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn



Mae'r rhain yn bethau sy'n helpu'ch plentyn i rannu beth mae ei eisiau a'i angen.



Maen nhw'n gallu cael eu defnyddio i helpu i gynllunio cyfarfodydd a'u cefnogi i gymryd rhan.



Mae enghreifftiau o offer cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gael yma: www.llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-canllawiau-ar-gyfer-rhieni-gofalwyr#Offerynnauymarfersy'ncanolbwyntioaryrunigolyn:templediacenghreifftiau.

Proffil un dudalen



Dyma ffordd syml o rannu'r wybodaeth bwysicaf am eich plentyn.



Mae'n helpu pobl eraill i'w deall a'u hadnabod.



Fel arfer mae'n cynnwys gwybodaeth fel:

- Beth mae pobl yn ei hoffi amdanyn nhw.
- Beth sy'n bwysig iddyn nhw.
- Sut i'w cefnogi yn y ffyrdd gorau.

Offeryn gwerthfawrogi



Mae hyn yn helpu i edrych ar beth mae pobl eraill yn ei hoffi am eich plentyn. Mae hefyd yn edrych ar eu sgiliau, eu doniau a'u diddordebau.

Beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio



Mae hyn yn helpu i edrych ar beth sy'n gweithio'n dda a beth allai fod angen newid.



Mae'n helpu pawb i ddeall gwahanol safbwyntiau.

Diwrnod da, diwrnod gwael



Mae hyn yn helpu i edrych ar sut mae diwrnod da yn edrych i'ch plentyn a beth sy'n gwneud diwrnod gwael.



Mae hyn yn gallu helpu staff sy'n gweithio gyda'ch plentyn i weld beth maen nhw ei angen. Mae'n gallu helpu'ch plentyn i deimlo'n sefydlog ac yn hapus.

Cylch perthynas




Dyma ffordd o ddangos beth sy'n bwysig ym mywyd eich plentyn. A sut mae gwahanol bobl yn eu cefnogi.

Dyheadau



Mae hyn yn helpu'ch plentyn i feddwl am ei ddyfodol. Mae'n eu helpu i feddwl am beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae hefyd yn edrych ar eu cryfderau.

Offeryn 4 plws 1



Mae'r offeryn yma yn gofyn 4 prif gwestiwn i helpu i ddarganfod beth sy'n bwysig iawn i'ch plentyn. Yna, un cwestiwn am yr hyn sy'n digwydd nesaf.



Mae'n helpu i arwain pobl wrth siarad am bethau.

Atebion i rai cwestiynau cyffredin



Pa mor aml ddylai cyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ddigwydd?

Bob 12 mis neu yn gynt os oes newid mawr. Gall y cyfarfod hefyd gael ei gynnal os oes angen adolygu'r cynllun datblygu unigol.



Beth ddylwn i ei wneud os nad ydw i'n credu bod cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei ddilyn?

Siaradwch â'r person sy'n arwain y cyfarfod. Neu siaradwch â phennaeth neu uwch staff. Rydych chi hefyd yn gallu siarad â'ch cyngor lleol.

Rydych chi hefyd yn gallu rhoi pethau yn ysgrifenedig os byddai'n eich helpu.



Ydw i'n gallu gofyn am adolygiad o'r cynllun datblygu unigol ar unrhyw adeg?

Ydych. Rydych chi'n gallu gofyn cyn yr adolygiad 12 mis os ydych chi'n teimlo bod rheswm da.



Pa mor hir fydd y cyfarfod sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn para?

Maen nhw fel arfer yn para rhwng 1 a 2 awr. Weithiau mae'r cyfarfod cyntaf yn gallu cymryd mwy o amser.



Oes rhaid i mi fynd i'r cyfarfod?

Na. Ond mae'n bwysig iawn. Os ydych chi'n teimlo ei bod yn rhy anodd, gofynnwch am ffyrdd eraill o gymryd rhan.



Ydw i'n gallu dod â rhywun gyda mi i'r cyfarfod?

Ydych. Rydych chi'n gallu dod ag aelodau o'r teulu, ffrind neu eiriolwr. Rhowch wybod i'r ysgol, y coleg neu'r cyngor lleol ymlaen llaw.



Beth os nad ydw i'n cytuno â beth sy'n cael ei ddweud am fy mhlentyn

Mae'n bwysig dweud os nad ydych chi'n teimlo bod eich barn yn cael ei glywed.



Dydw i ddim wedi derbyn unrhyw beth ar ôl y cyfarfod. Beth ddylwn i wneud?

Cysylltwch â:

- Yr unigolyn a arweiniodd y cyfarfod
- Y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Neu dîm ADY y cyngor lleol.



Os oes unrhyw beth arall nad ydych chi'n hapus ag ef neu nad ydych chi'n ei ddeall, fe ddylech chi ddarganfod mwy. Cysylltwch â'r cydlynydd ADY, yr athro neu'r cyngor lleol.



Os nad ydych chi'n deall unrhyw beth, gofynnwch i bobl siarad mewn iaith glir.

Dolenni defnyddiol



[Anghenion dysgu ychwanegol: tudalen canllawiau i rieni a gofalwyr]

Mae'r canllaw hwn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall y system Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r cymorth sydd ar gael.



[Anghenion Dysgu Ychwanegol: Pecyn cymorth rhieni a gofalwyr]

Mae'r canllaw hwn yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut mae'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gweithio a'r gefnogaeth sydd ar gael. Mae'n esbonio'r gyfraith a dogfennau eraill sy'n ffurfio'r system ADY.



[Canllaw i blant, eu rhieni a phobl ifanc am hawliau o dan y system ADY]

Mae'r canllaw hwn yn egluro hawliau plant, eu rhieni a phobl ifanc o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.



[Tribiwnlys Addysg Cymru]

Mae'r sefydliad hwn yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau ynghylch ADY.



[Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd]

Yn darparu cymorth, cefnogaeth a chyngor am ddim ar lawer o faterion teuluol.



[Niwrowahaniaeth Cymru]

Mae ganddo adnoddau ac offer ymarferol i'ch helpu i ddeall mwy am niwrowahaniaeth.



Mae **niwrowahaniaeth** yn ymwneud â sut mae ymennydd pobl yn gweithio. Mae gan rai pobl wahaniaethau mwy o ran sut maen nhw'n meddwl ac yn cyfathrebu ag eraill. Maen nhw'n niwrowahanol.



[Addysg feithrin i blant 3 a 4 oed]

Dyma ganllaw i rieni a gofalwyr i'ch helpu i ddeall addysg feithrin i blant 3 a 4 oed.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2026

ISBN: 978-1-83745-749-6
WG54791

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247